Site Stakeholder Group

Summary of key points from the Wylfa Site Stakeholder Group Meeting 4 October 2018, David Hughes Village Hall, Cemaes.

1. The Chairman updated members on his SSG activities since June 2018 referring to:

   - The NDA Stakeholder Summit held in Berkeley in July. He stated that it was beneficial to see how the NDA had regenerated the Berkeley site which now houses South Gloucestershire College Campus.
   - A site visit and meeting to Wylfa by David Peattie, NDA CEO, and Tom McKeating, Executive Assistant on 13 September 2018.
   - Magnox Executive SSG Chair Meeting to be held in London on 19 November 2018

2. Stuart Law presented the Site Director's Report drawing particular attention to:

   - Flasking rates improved by 50% year on year, the site shipped a record seven flasks in one week and the 70% overall defuelled landmark was accomplished.

   - Long term contractors Doosan Babcock left the site in July as there is no longer sufficient work to engage their services. Doosan Babcock had been on site for decades, supporting outages and complex engineering projects.

3. Bill Hamilton, Nuclear Decommissioning Authority gave an update of site activities on behalf of the NDA.

4. John McGough Office for Nuclear Regulation (ONR) provided a written update on ONR Inspections at Wylfa in his absence.

5. Rona Arkle, National Resources Wales presented an update on NRW activity at Wylfa

6. An update on recipients of the Magnox socio-economic scheme was presented by Mair Jones, Magnox Socio-economic Lead.

7. The revised Wylfa SSG Constitution was presented and adopted in by two voting members.

DRAFT

Site Stakeholder Group

Minutes of the Wylfa Site Stakeholder Group
Thursday 4 October 2018, David Hughes Hall, Cemaes

Present:

Cllr Aled M Jones	IOACC Twrcelyn Ward and SSG Chair
Stuart Law	Site Director, Magnox
Mair Jones	Magnox Socio Economic Lead
Michelle Humphreys	Magnox Communications Regional Lead
Caron Weaver	Magnox Asset Manager and Improvement Director
Bill Hamilton	Nuclear Decommissioning Authority
Rona Arkle	Natural Resources Wales
David Wilby	Natural Resources Wales
Enid Jones	Merched y Wawr
Sue Scott	Anglesey WI
Tom Conway	Wylfa Retirees Association
Mark Elsworth	Magnox
Tim Poole	Campaign for the Protection of Rural Wales
Cllr Gareth W Roberts	Amlwch Town Council
Cllr Ken Hughes	IOACC Talybolion Ward
Manon Francis	IOACC Economic Development Unit/Energy Island.
PS Neil Jones	North Wales Police

Also:

Ann Llwyd	Translator – Cymen
Sydna Roberts	Minute taker – Cymen

Apologies:

Gary Leighton-Jones	North Wales Police
Julia Frost	Natural Resources Wales
Gordon Warren	Bull Bay Community Club
Cllr Richard Owain Jones	Amlwch Town Council
John Idris Jones	Snowdonia Enterprise Zone
Gwyn Hughes	Emergency Planning Officer
Dylan Williams	Anglesey County Council

DRAFT

1 Welcome and Receive Apologies for Absence

The Chair welcomed all to the meeting at 2pm. Apologies were noted as above.

2 Approval of Minutes of the Meeting held 7 June 2018

The minutes had been circulated prior to the meeting. Cllr G W Roberts proposed that the minutes were correct and was seconded by Cllr A M Jones. The minutes were received and accepted as a true record.

3 Matters Arising from the Previous Minutes

None raised

4 SSG Chairman's Report

The Chair gave an overview of his activities since the last meeting and drew particular attention to:

- The NDA Stakeholder Summit held in Berkeley in July. He stated that it was beneficial to see how the NDA had regenerated the site which how houses South Gloucestershire College.
- A site visit to Wylfa by David Peattie, NDA CEO, and Tom McKeating, Executive Assistant on 13 September 2018.
- Magnox Executive SSG Chair Meeting to be held in London on 19 November 2018

5 Wylfa Site Director's Report

Stuart Law presented his report. Copies of the report had been forwarded to SSG members and were also available at the meeting. In summary, Mr Law referred to:

Wylfa Site Operations

Defuelling performance over the summer months saw a fantastic turnaround as flasking rates improved by 50% year on year, the site shipped a record seven flasks in one week and the 70% overall defuelled landmark was accomplished. Over the last few weeks, 20 new people have joined the defuelling operations and maintenance teams. Their training is going well and it is expected that they become suitably qualified and experienced personnel in some tasks towards the end of September. This will provide an immediate benefit to defuelling – enabling the site to consistently defuel on both reactors and fill flasks at the same time subject to fuel route equipment availability. Flask dispatch rates have improved from a historical 2.6 flasks per week to 4.6 per week average over a five month period.

The forecast date to ship the last flask of fuel remains at the end of November 2019 but we continue to do all we can to achieve this sooner.

As of 11 September, the reactors were 71% defuelled overall with 17,746 spent fuel elements remaining in Reactor 1, 10,221 spent fuel elements in Reactor 2 and 228 fuel flask shipments to go.

The dry store cell four Intermediate Level Waste (ILW) retrieval project to remove skip tubes containing corroded fuel element debris continues to make good progress. 33 of the 37 individual fuel element storage tubes have been successfully recovered to date and placed into ductile cast iron containers. An additional eight contaminated skip tubes have been found which have been

DRAFT

added to the scope of retrieval work. There will then be a period of post operational clean out of the area.

As reported at the last meeting, a level 1 incident (0 being of no safety significance) involving the incorrect fitting of a secondary seal on an irradiated fuel transport flask had taken place. There was no leakage and no radioactive release, therefore nobody was at risk from a safety perspective but the incident is recognised as a near miss event as the site didn't recognise that the flask's inner lid seal was in the wrong position.

As part of the Post Generation & Defuelling Safety Case, the site has now successfully implemented the safety case to stand down the Gas Turbines. The site's emergency electrical supplies are now provided solely by the Electrical Overlay System and Diesel Generators.

Waste Operations
Since the start of this financial year, 156.55 tonnes of asbestos contaminated material has been disposed of. Two consignments of Low Level Waste have been shipped during the period (total of 21 cubic metres).

Maentwrog Site Operations
Rainfall between 28 April to 31 August 2018 was 329.9 mm. Electricity generation from between 1 April to 31 August 2018 was 10 Gigawatt Hours against a target of 13 Gigawatt Hours due to the low rainfall in May and early June. The availability for the same period has been 74%; this is due to additional outage work committed due to the low rainfall period.

TV Presenter Will Millard and a film crew from Lazerbeam TV spent a day on location at Maentwrog site filming for a series called Hidden Wales that will be screened on BBC2 in the Autumn.

Environment, Health, Safety, Security and Quality (EHSS&Q)
Safety statistics 10 September
Total recorded incident rate (TRIR): 0.37
Days away case rate (DACR): 0.37
No of days since a lost time accident: 62

First aid events
An operative twisted his ankle whilst retrieving a spanner in the magnetic filter room, Reactor 2, and an individual sustained a splinter in the hand (from a scaffold board) which caused swelling.

Monthly Target Zero safety campaigns have been delivered throughout the reporting period covering the following topics: environmental awareness, radiological standards, waste management and the Control of Substances Hazardous to Health Regulations (COSHH).

Site activities
Long term contractors Doosan Babcock left the site in July as there is no longer sufficient work to engage their services. Doosan Babcock had been on site for decades, supporting outages and complex engineering projects.

DRAFT

A project is underway to review the records held in the site's three archive buildings, destroy those that are no longer required and relocate permanent records to specialist storage facilities in Birmingham. This work is in preparation for the site's transition to the Care & Maintenance Preparations Phase post Defuelling.

Visits
We hosted a group visit from the Women in Nuclear Network (Wales) on 18 July. First Minister Carwyn Jones called in to receive an update on defuelling and future plans on 30 July.

A group of visitors from Urenco were welcomed to site on 14 August.

NDA Transition Director Nigel Lowe gave a presentation to Magnox staff on 4 September regarding the Magnox Transition programme.

Workforce
As of 31 August 2018, there were 290 employees and 23 Agency Supplied Workers on site (not including Security or Magnox Support Office staff based at Wylfa).

The Chair invited questions from the floor and none were presented. Mr Law was thanked for his detailed update report.

6 Nuclear Decommissioning Authority Update
Mr Bill Hamilton was welcomed to the meeting. The NDA Update was shared with members. BH also noted the following:-

The Stakeholder Summit in July was a successful event with 250 attendees from across Europe. It has been agreed to hold a similar event in Coleg Menai, Llangefni during July 2019 with further details to be released soon. All members of the SSG will be given invitations.

The NDA is looking at a potential change in strategy to speed up decommissioning rather than sites going into long term Care & Maintenance. Discussions are ongoing regarding Continuous Reactor Decommissioning. A workshop is scheduled to take place on 20 November 2018 with representatives from planning authority's and other regulators. Issues to be discussed include the physical condition of buildings and potential alternative use. BH reiterated that any developments would be dependent on Government funding.

An SSG Chairs Meeting is scheduled for 19 November 2018 in London.

Magnox Ltd will become a subsidiary company of the NDA from 1 September 2019. Interviews by an Independent Panel of experts for a new Management Team will commence soon.

Cllr G W Roberts enquired as to the timescale for future landscaping. Bill Hamilton confirmed that there is a programme of landscaping within the care and maintenance (mothballing) model, however, a definitive response to the query is dependent on where Wylfa is set within the options. Bill Hamilton also wished to

DRAFT

assure members that the detail on site clearance will be fully discussed at all stages.

Mr Hamilton was thanked for his report.

7 Office for Nuclear Regulation Update

John McGough tendered his apologies so the SSG Chair presented the following verbal update provided by John McGough on his behalf:-

'I undertook Licence Condition compliance inspections at Wylfa in June and July. The latter inspection aligned with the Magnox Welsh Region ARROSSE, which was attended by the ONR superintending inspector whose responsibly include the Magnox stations. There were no significant safety issues identified during my inspections. No Licence Instruments or Enforcement Notices were issued by ONR during the period. Also, there were no none-routine matters on site that required regulatory action.'

8 Natural Resources Wales Update

Rona Arkle was welcomed to the meeting and provided an update report drawing particular attention to the following:

Discharges from Wylfa

All radioactive discharges from Wylfa remain well within the annual limits set in the site's radioactive substances environmental permit. All non-radioactive discharges to water remain within the limits set in the site's water discharge permits

Environmental monitoring

Magnox Ltd is required to carry out routine environmental monitoring under their radioactive substances permit. This involves taking a wide range of environmental samples from locations in the vicinity of the site and analysing them for radioactivity content. Recent results from the programme are in line with those from previous periods and show no cause for concern.

The Environment Agency also undertakes an independent programme of environmental monitoring, on behalf of NRW. This enables NRW to check the levels of radioactivity in the environment arising from nuclear site permitted discharges, and so assess dose to the public to ensure that this remains within statutory limits. The results are widely reported, along with results from monitoring programmes around other UK nuclear sites, in the Radioactivity in Food and the Environment (RIFE) report. The 2017 report will be published soon.

Routine regulatory matters

NRW visited Wylfa to carry out inspections or attend meetings as follows:
Training, SQEP & knowledge management inspection (26 June)
Annual Regional Review of Safety, Security & Environment (ARROSSE) (24/25 July). No issues were identified.

Permitting

As Wylfa progresses through the defuelling phase, more of the plant which was required to support nuclear safety (*eg* cooling water systems, back-up electrical

and steam supplies) is no longer needed. The majority of the combustion installation has now been permanently stood down. Magnox Ltd has surrendered its EU-ETS (emissions trading scheme) permit.
Use of the seawater cooling system is expected to cease later this year, and the drainage from sumps and surface water drains in the pump house area is being re-routed to an existing permitted discharge route.

NRW plan to vary the radioactive substances permit in the next few months. It will reduce the notification levels for discharges, to reflect reduced monthly discharges since electricity generation ceased. It will also introduce new conditions related to our recently-published guidance on management of radioactive waste from decommissioning.

Events & enforcement
NRW regularly review summaries of all events reported, and discuss those relevant to environmental compliance with Magnox Ltd as part of our routine regulation.

There have been no significant environmental events at Wylfa during this reporting period

Rona Arkle was thanked for her report.

9 Wylfa Waste Management Update
No report presented

10 Magnox Socio-Economic Scheme Update
Mair Jones gave a short presentation on the achievements of the Magnox socio-economic scheme. She noted that to date, seven applications have been supported through the scheme this financial year, securing a total of £121,830 Magnox funding.

Good Neighbour funding recipients:
Anglesey Young Farmers Rally Committee - awarded £300 to sponsor the under 16's carpentry skills competition.
Cybi Striders – received £120 to purchase six re-usable wooden trophies, custom made by local suppliers, Coed Môn.

Ysgol Gyfun Llangefni – Magnox sponsored the school with £300 Magnox funding last year to enter the F1 in schools competition. After achieving first place in the regional stage, the team continued their success in the Nationals at Silverstone. Last month they represented Wales in the F1 in Schools World Finals 2018 in Singapore, alongside the Formula 1 Grand Prix. They won the Global Team Identity Award.

Sustainable Communities funding recipients:
Friends of Cemaes Library - the recently formed group were granted £5,000 Magnox funding to support the library service within the community for the next 12 months, safeguarding the role of the librarian.

Update on the larger, ongoing transformational projects supported:

Anglesey County Council, Energy Island - Third year of Phase 3.

Former Peboc site, Llangefni - Delays with securing the outline planning consent on the former chemical works site. Further site investigations and an in depth bat analysis is required. The planning consent is anticipated early 2019

.

Penrhos extension, Holyhead – Studies, surveys and assessments have been produced for the additional development plot. A full planning application has been approved and £3.9m European Regional Development Fund (ERDF) grant and Welsh Government (WG) funding secured to build ten business units on the redundant site.

Amlwch and North Anglesey Regeneration Plan – There have been several public engagement meetings and consultation events in the area, along with a survey for local residents to complete, with over 550 responses. Draft phase 1 Consultation Survey report has been compiled, with a finalised plan expected in December 2018. Specific projects based on the consultation response will be prioritised and suggestions considered and developed further.

Capel Bethlehem, Cemaes. - Having secured £150,000 of Magnox funding last financial year, the £1.7m Capel Bethlehem Project is awaiting a decision regarding their planning application. The project will create five new business enterprises; a restaurant, two retail outlets, holiday let, and cinema. These in turn will create many employment and voluntary opportunities.

The scheme provides funding to support activities that benefit the social or economic life of communities, in support of the NDA's responsibilities under the Energy Act (2004) to mitigate the socio-economic impact of its work programme where it operates.

Funding is available on a rolling programme and prioritised towards aims 2 and 3, where the biggest and most sustainable socio-economic benefit can be achieved. More information on the scheme and funding criteria is available at: https://magnoxsocioeconomic.com

Mair Jones was thanked for her update and the team congratulated on the good work undertaken to enable funding for local projects. Cllr G W Roberts reiterated his request for this information and positive outcomes to be made more readily available to the public.

11 Open Forum Question and Answer Session

No Open Forum questions presented.

12 Wylfa SSG Constitution Review

The Chair presented the reviewed Wylfa SSG Constitution. The amendments were agreed for approval by two voting members.

13 Any Other Business

Tom Conway enquired as to the process regarding records management on site. Stuart Law confirmed that there are three large archive stores currently being classified and catalogued in accordance to the statutory requirements.

Dates for 2019 meetings were proposed as 31 January 2019 and 27 June 2019. The June meeting will consider the election of a new Chair. The start time for

meetings were confirmed at 2pm and the venue to remain David Hughes Village Hall. Members requested that a PA system be used for future meetings.

The Chair thanked all for their attendance and closed the meeting at 2.55pm

Next Meeting – Thursday 31 January 2019

DRAFT

Site Stakeholder Group

Crynodeb o'r prif bwyntiau o Gyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa 4 Hydref 2018, Neuadd Bentref David Hughes, Cemaes.

1. Nododd y Cadeirydd y sefyllfa ddiweddaraf i'r aelodau o ran ei weithgareddau ar ran y Grŵp Rhanddeiliaid (SSG) ers mis Mehefin 2018, gan gyfeirio at:

   - Uwchgynhadledd Rhanddeiliaid yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) a gynhaliwyd yn Berkeley ym mis Gorffennaf. Dywedodd ei bod yn werthfawr gweld sut yr oedd yr NDA wedi adfywio safle Berkeley a oedd bellach yn gartref i Gampws Coleg De Swydd Gaerloyw.
   - Ymweliad safle a chyfarfod yn Wylfa gan David Peattie, Prif Weithredwr yr NDA a Tom McKeating, Cynorthwyydd Gweithredol ar 13 Medi 2018.
   - Cyfarfod Cadeiryddion SSG Magnox i'w gynnal yn Llundain ar 19 Tachwedd 2018.

2. Cyflwynodd Stuart Law Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle gan dynnu sylw penodol at y canlynol:

   - Cyfraddau fflasgio wedi gwella 50% o un flwyddyn i'r llall. Anfonodd y safle record o saith fflasg mewn un wythnos ac fe gafodd y garreg filltir o dynnu 70% o'r tanwydd ei chyflawni.

   - Gadawodd y contractwyr hirdymor Doosan Babcock y safle ym mis Gorffennaf gan nad oedd bellach ddigon o waith yno ar gyfer eu gwasanaethau. Roedd Doosan Babcock wedi bod ar y safle ers degawdau, yn cefnogi'r cyfnodau segur a phrosiectau peirianyddol cymhleth.

3. Nododd Bill Hamilton o'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear y sefyllfa ddiweddaraf o ran gweithgareddau ar y safle ar ran yr NDA.

4. Darparodd John McGough o'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) ddiweddariad ysgrifenedig ar Archwiliadau'r ONR yn Wylfa yn ei absenoldeb.

5. Cyflwynodd Rona Arkle, Cyfoeth Naturiol Cymru y diweddaraf ar weithgarwch CNC yn Wylfa.

6. Cyflwynwyd y diweddaraf o ran y rhai a dderbyniodd arian o gynllun economaidd-gymdeithasol Magnox gan Mair Jones, Arweinydd Economaidd-gymdeithasol Magnox.

7. Cyflwynwyd Cyfansoddiad diwygiedig SSG Wylfa a'i fabwysiadu gan ddau aelod â hawl pleidleisio.

DRAFT

Site Stakeholder Group

Cofnodion Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa
Dydd Iau 4 Hydref 2018, Neuadd David Hughes, Cemaes

Yn bresennol:

Y Cyng. Aled M Jones	Cyngor Sir Ynys Môn, Ward Twrcelyn a Chadeirydd SSG
Stuart Law	Cyfarwyddwr y Safle, Magnox
Mair Jones	Arweinydd Economaidd-gymdeithasol Magnox
Michelle Humphreys	Arweinydd Rhanbarthol Uned Gyfathrebu Magnox
Caron Weaver	Rheolwr Asedau a Chyfarwyddwr Gwella Magnox
Bill Hamilton	Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear
Rona Arkle	Cyfoeth Naturiol Cymru
David Wilby	Cyfoeth Naturiol Cymru
Enid Jones	Merched y Wawr
Sue Scott	Sefydliad y Merched Ynys Môn
Tom Conway	Cymdeithas Gweithwyr wedi Ymddeol Wylfa
Mark Elsworth	Magnox
Tim Poole	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Y Cyng. Gareth W Roberts	Cyngor Tref Amlwch
Y Cyng. Ken Hughes	Cyngor Sir Ynys Môn, Ward Talybolion
Manon Francis	Cyngor Sir Ynys Môn, Uned Datblygu Economaidd/Ynys Ynni
PS Neil Jones	Heddlu Gogledd Cymru

Hefyd:

Ann Llwyd	Cyfieithydd – Cymen
Sydna Roberts	Cofnodydd – Cymen

Ymddiheuriadau:

Gary Leighton-Jones	Heddlu Gogledd Cymru
Julia Frost	Cyfoeth Naturiol Cymru
Gordon Warren	Clwb Cymunedol Porth Llechog
Y Cyng. Richard Owain Jones	Cyngor Tref Amlwch
John Idris Jones	Ardal Fenter Eryri
Gwyn Hughes	Swyddog Cynllunio Argyfwng
Dylan Williams	Cyngor Sir Ynys Môn

DRAFT

1 Croeso a Derbyn Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod am 2pm. Nodwyd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.

2 Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd 7 Mehefin 2018

Yr oedd y cofnodion wedi eu cylchredeg cyn y cyfarfod. Cynigiodd y Cyng. G W Roberts fod y cofnodion yn gywir, ac eiliwyd hynny gan y Cyng. A M Jones. Cafodd y cofnodion eu derbyn yn gofnod cywir.

3 Materion yn Codi o'r Cofnodion Blaenorol

Ni chodwyd unrhyw fater

4 Adroddiad Cadeirydd y Grŵp Rhanddeiliaid Safle

Rhoddodd y Cadeirydd ddarlun cyffredinol o'i weithgareddau ers y cyfarfod diwethaf, gan dynnu sylw penodol at:

- Uwchgynhadledd Rhanddeiliaid yr NDA a gynhaliwyd yn Berkeley ym mis Gorffennaf. Dywedodd ei bod yn werthfawr gweld sut yr oedd yr NDA wedi adfywio'r safle a oedd bellach yn gartref i Gampws Coleg De Swydd Gaerloyw.
- Ymweliad safle â'r Wylfa gan David Peattie, Prif Weithredwr yr NDA a Tom McKeating, Cynorthwyydd Gweithredol ar 13 Medi 2018.
- Cyfarfod Cadeiryddion SSG Magnox i'w gynnal yn Llundain ar 19 Tachwedd 2018.

5 Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Wylfa

Cyflwynodd Stuart Law ei adroddiad. Yr oedd copïau o'r adroddiad wedi cael eu hanfon ymlaen i aelodau SSG ac roedd rhai ar gael yn y cyfarfod hefyd. Yn gryno, cyfeiriodd Mr Law at y canlynol:

Gweithrediadau Safle Wylfa

Yn ystod misoedd yr haf cafodd perfformiad tynnu tanwydd ei weddnewid wrth i'r cyfraddau fflasgio wella 50% o un flwyddyn i'r llall. Anfonodd y safle record o saith fflasg mewn un wythnos ac fe gafodd y garreg filltir o dynnu 70% o'r tanwydd ei chyflawni. Dros yr wythnosau diwethaf, mae 20 o bobl newydd wedi ymuno â'r timau tynnu tanwydd a chynnal a chadw. Mae'u hyfforddiant yn mynd rhagddo'n dda a disgwylir y byddant wedi cymhwyso'n briodol ac yn weithwyr profiadol mewn rhai tasgau tua diwedd Medi. Bydd hyn o fudd yn syth i'r gwaith tynnu tanwydd - gan alluogi'r safle i dynnu tanwydd yn gyson o'r ddau adweithydd a llenwi fflasgiau ar yr un pryd gyhyd â bod offer y llwybr tanwydd ar gael. Mae cyfraddau anfon fflasgiau wedi gwella o 2.6 fflasg yr wythnos yn hanesyddol i 4.6 yr wythnos ar gyfartaledd dros bum mis.

Y dyddiad a roddwyd fel rhagamcan ar gyfer anfon y fflasg olaf o danwydd yw diwedd Tachwedd 2019 o hyd. Ond byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i gyflawni hyn yn gynt.

Ar 11 Medi, at ei gilydd roedd 71% o'r tanwydd wedi'i dynnu o'r adweithyddion gyda 17,746 o elfennau tanwydd wedi'u defnyddio ar ôl yn Adweithydd 1 a 10,221 yn Adweithydd 2, a 228 o lwythi fflasgiau tanwydd i fynd.

Mae'r prosiect adfer Gwastraff Lefel Ganolraddol (ILW) cell storfa sych 4 i dynnu tiwbiau sgip sy'n cynnwys gweddillion elfennau tanwydd sydd wedi erydu yn

DRAFT

parhau i wneud cynnydd da. Llwyddwyd i adfer 33 o'r 37 o diwbiau storio elfennau tanwydd unigol hyd yma ac maent wedi'u rhoi mewn cynwysyddion haearn bwrw hydwyth. Mae wyth yn rhagor o diwbiau sgip sydd wedi'u halogi wedi cael eu canfod ac wedi cael eu hychwanegu at gwmpas y gwaith adfer. Wedyn bydd cyfnod o lanhau'r ardal ar ôl y cyfnod gweithredol yn digwydd.

Fel y nodwyd yn y cyfarfod diwethaf, cafwyd digwyddiad lefel 1 (gydag 0 yn golygu digwyddiad o ddim arwyddocâd i ddiogelwch), lle roedd sêl eilaidd wedi'i osod yn anghywir ar fflasg cludo tanwydd arbelydredig. Ni ryddhawyd dim deunydd ymbelydrol ac ni chafwyd dim gollyngiadau. Felly, doedd neb mewn perygl o safbwynt diogelwch ond mae'r digwyddiad yn cael ei gydnabod fel digwyddiad trwch-blewyn gan nad oedd y safle wedi sylwi bod sêl caead mewnol y fflasg yn y safle anghywir.

Fel rhan o'r Achos Diogelwch Tynnu Tanwydd ar ôl Cynhyrchu, mae'r safle yn awr wedi gweithredu'r achos diogelwch yn llwyddiannus i roi'r gorau i ddefnyddio'r Tyrbinau Nwy. Mae cyflenwadau trydanol brys y safle yn awr yn cael eu darparu gan y Generaduron Diesel a'r System Troshaen (overlay) Trydanol yn unig.

Gweithrediadau Gwastraff
Ers dechrau'r flwyddyn ariannol hon, cafwyd gwared ag 156.55 tunnell o ddeunydd asbestos halogedig. Mae dau lwyth o Wastraff Lefel Isel wedi cael eu hanfon yn ystod y cyfnod (cyfanswm o 21 metr ciwbig).

Gweithredu ar Safle Maentwrog
Rhwng 28 Ebrill a 31 Awst 2018, cafwyd 329.9 mm o law. Rhwng 1 Ebrill a 31 Awst 2018 cafodd 10 Awr Gigawat o drydan ei gynhyrchu o'i gymharu â tharged o 13 Awr Gigawat oherwydd y glawiad isel ym mis Mai a dechrau Mehefin. Bu'r argaeledd ar gyfer yr un cyfnod yn 74%. Mae hyn oherwydd gwaith 'cyfnod segur' ychwanegol oherwydd y cyfnod o lawiad isel.

Fe dreuliodd y cyflwynydd teledu Will Millard a chriw ffilmio o Lazerbeam TV ddiwrnod ar leoliad yn safle Maentwrog yn ffilmio ar gyfer cyfres o'r enw Hidden Wales a fydd yn cael ei dangos ar BBC2 yn yr Hydref.

Yr Amgylchedd, Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd (EHSS&Q)
Ystadegau Diogelwch 10 Medi
Cyfradd cyfanswm y digwyddiadau a gofnodwyd (TRIR): 0.37
Cyfradd achosion diwrnodau i ffwrdd (DACR): 0.37
Nifer y diwrnodau ers damwain colli amser: 62

Digwyddiadau Cymorth Cyntaf
Trodd gweithiwr ei ffêr wrth fynd i nôl sbaner yn ystafell y ffilter magnetig, Adweithydd 2, a chafodd unigolyn fflawen yn ei law (o fwrdd sgaffaldio) a achosodd chwydd.

Cyflwynwyd ymgyrchoedd diogelwch Targed Sero misol gydol y cyfnod adrodd yn cwmpasu'r meysydd canlynol: ymwybyddiaeth amgylcheddol, safonau radiolegol, rheoli gwastraff a Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH).

Gweithgarwch ar y Safle
Gadawodd y contractwyr hirdymor Doosan Babcock y safle ym mis Gorffennaf gan nad oedd bellach ddigon o waith yno ar gyfer eu gwasanaethau. Roedd Doosan Babcock wedi bod ar y safle ers degawdau, yn cefnogi'r cyfnodau segur a phrosiectau peirianyddol cymhleth.

Mae prosiect ar y gweill i adolygu'r cofnodion sy'n cael eu cadw yn nhri adeilad archif y safle, gan ddinistrio'r rheini nad ydym eu hangen mwyach a symud cofnodion parhaol i gyfleusterau storio arbenigol yn Birmingham. Mae'r gwaith yma i baratoi ar gyfer symud i'r Cyfnod Paratoadau ar gyfer Gofalu a Chynnal a Chadw ar y safle ar ôl y cyfnod Tynnu Tanwydd.

Ymweliadau
Daeth grŵp i ymweld â ni ar 18 Gorffennaf o Rwydwaith Menywod yn y Maes Niwclear (Cymru). Ar 30 Gorffennaf, daeth Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru atom i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith tynnu tanwydd a'r cynlluniau i'r dyfodol.

Croesawyd grŵp o ymwelwyr o Urenco i'r safle ar 14 Awst.

Rhoddodd Cyfarwyddwr Pontio'r NDA Nigel Lowe gyflwyniad i staff Magnox ar 4 Medi ynghylch rhaglen Pontio Magnox.

Y Gweithlu
Ar 31 Awst 2018 roedd 290 o weithwyr a 23 o Weithwyr a Gyflenwyd gan Asiantaeth ar y safle (heb gynnwys gweithwyr Diogelwch na staff Swyddfa Cymorth Magnox sydd wedi'u lleoli yn Wylfa).

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau o'r llawr ac ni chyflwynwyd yr un. Diolchwyd i Mr Law am ei adroddiad diweddaru manwl.

6 Diweddariad gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear
Croesawyd Mr Bill Hamilton i'r cyfarfod. Rhannwyd Diweddariad yr NDA gyda'r aelodau. Nododd BH y canlynol hefyd:-

Bu'r Uwchgynhadledd Rhanddeiliaid ym mis Gorffennaf yn ddigwyddiad llwyddiannus gyda 250 yn bresennol o bob cwr o Ewrop. Cytunwyd y dylid cynnal digwyddiad tebyg yng Ngholeg Menai, Llangefni yn ystod mis Gorffennaf 2019 a byddai manylion pellach yn cael eu rhyddhau cyn bo hir. Bydd pob aelod o'r SSG yn derbyn gwahoddiad.

Mae'r NDA yn ystyried newid posibl o ran strategaeth i gyflymu datgomisiynu yn hytrach na bod safleoedd yn mynd i gyfnod o Ofal a Chynnal a Chadw hirdymor. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ynghylch Datgomisiynu Parhaus ar Adweithyddion. Trefnwyd i gynnal gweithdy ar 20 Tachwedd 2018 gyda chynrychiolwyr o'r awdurdodau cynllunio a rheoleiddwyr eraill. Mae'r materion i'w trafod yn cynnwys cyflwr ffisegol adeiladau a'r potensial ar gyfer defnydd gwahanol. Ailadroddodd BH y byddai unrhyw ddatblygiadau'n ddibynnol ar gyllid gan y Llywodraeth.

Mae cyfarfod o Gadeiryddion SSG wedi'i drefnu ar gyfer 19 Tachwedd 2018 yn Llundain.

Bydd Magnox Ltd yn dod yn is-gwmni i'r NDA o 1 Medi 2019. Bydd cyfweliadau gan Banel Annibynnol o arbenigwyr ar gyfer Tîm Rheoli newydd yn dechrau cyn bo hir.

Gofynnodd y Cyng. G W Roberts beth oedd yr amserlen ar gyfer tirlunio yn y dyfodol. Cadarnhaodd Bill Hamilton fod yna raglen o dirlunio o fewn y model gofal a chynnal a chadw ('mothballing'), fodd bynnag mae ymateb i'r ymholiad yn dibynnu ar leoliad Wylfa o fewn yr opsiynau. Yr oedd Bill Hamilton hefyd yn dymuno sicrhau'r aelodau y bydd manylion clirio'r safle yn cael eu trafod ar bob cam.

Diolchwyd i Mr Hamilton am ei adroddiad.

7 Diweddariad gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear

Yr oedd John McGough wedi cyflwyno ei ymddiheuriad, felly cyflwynodd Cadeirydd SSG y diweddariad llafar canlynol a ddarparwyd gan John McGough, ar ei ran:-

'Bûm yn cynnal archwiliadau cydymffurfio ag Amodau'r Drwydded yn Wylfa yn ystod Mehefin a Gorffennaf. Yr oedd yr olaf o'r archwiliadau'n alinio ag ARROSSE Rhanbarth Cymru Magnox, lle yr oedd arolygydd goruchwyliol yr ONS, y mae ei gyfrifoldeb yn cynnwys y gorsafoedd Magnox, yn bresennol. Ni chafodd unrhyw faterion sylweddol o ran diogelwch eu canfod yn ystod fy archwiliadau. Ni chyhoeddwyd unrhyw Offerynnau Trwydded na Rhybuddion Gorfodaeth gan ONR yn ystod y cyfnod. Hefyd, nid oedd unrhyw faterion heb fod yn rhai arferol ar y safle a oedd yn galw am gamau rheoleiddio.'

8 Diweddariad Cyfoeth Naturiol Cymru

Croesawyd Rona Arkle i'r cyfarfod a darparodd adroddiad diweddaru yn tynnu sylw penodol at y canlynol:

Gollyngiadau o Wylfa

Mae'r holl ollyngiadau ymbelydrol o Wylfa'n parhau i fod ymhell o fewn y terfynau blynyddol a bennwyd yn nhrwydded amgylcheddol sylweddau ymbelydrol y safle. Mae'r holl ollyngiadau heb fod yn ymbelydrol i ddŵr parhau i fod o fewn y terfynau a bennwyd yn nhrwyddedau gollwng dŵr y safle

Monitro amgylcheddol

Mae'n ofynnol i Magnox Ltd gyflawni monitro amgylcheddol arferol dan eu trwydded sylweddau ymbelydrol. Mae hyn yn golygu cymryd ystod eang o samplau amgylcheddol o leoliadau yn agos i'r safle a'u dadansoddi gan chwilio am gynnwys ymbelydrol. Mae canlyniadau diweddar y rhaglen yn unol â'r rhai o gyfnodau blaenorol ac nid ydynt yn dangos unrhyw achos pryderu.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd yn ymgymryd â rhaglen annibynnol o fonitro amgylcheddol, ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hyn yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i wirio lefelau ymbelydredd yn yr amgylchedd yn codi o ollyngiadau a ganiateir o safleoedd niwclear, a thrwy hynny asesu'r ddogn i'r

cyhoedd er mwyn sicrhau bod hyn yn parhau o fewn terfynau statudol. Caiff y canlyniadau eu hadrodd yn eang, ynghyd â chanlyniadau rhaglenni monitro o gwmpas safleoedd niwclear eraill y DU, yn yr adroddiad Ymbelydredd mewn Bwyd ac yn yr Amgylchedd (RIFE). Bydd adroddiad 2017 yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir.

Materion rheoleiddio arferol
Ymwelodd Cyfoeth Naturiol Cymru â'r Wylfa i gynnal archwiliadau neu i fynychu cyfarfodydd fel a ganlyn:
Archwiliad hyfforddiant, SQEP a gwybodaeth (26 Mehefin)
Adolygiad Rhanbarthol Blynyddol o Ddiogelwch a'r Amgylchedd (ARROSSE) (24/25 Gorffennaf) Ni chanfuwyd unrhyw broblemau.

Trwyddedu
Wrth i Wylfa symud ymlaen drwy'r cam gwagio tanwydd, mae mwy o'r offer a oedd yn ofynnol i gynorthwyo diogelwch niwclear (e.e. systemau dŵr oeri, cyflenwadau trydan a stêm wrth gefn) yn ddiangen erbyn hyn. Mae'r rhan fwyaf o'r gosodiad hylosgi bellach yn barhaol ddiddefnydd. Mae Magnox Ltd wedi ildio'i drwydded o ran system masnachu allyriadau'r UE.
Disgwylir y bydd defnyddio system oeri gan ddefnyddio dŵr y môr yn dod i ben eleni, ac mae'r draenio o swmpau a draeniau dŵr wyneb yn ardal y tŷ pwmpio yn cael ei ailgyfeirio i lwybr gollwng presennol a ganiatawyd.

Mae CNC yn bwriadu amrywio'r drwydded sylweddau ymbelydrol yn y misoedd nesaf. Bydd yn gostwng y lefelau hysbysu ar gyfer gollyngiadau, i adlewyrchu gostyngiad yn y gollyngiadau misol ers i gynhyrchu trydan ddod i ben. Bydd hefyd yn cyflwyno amodau newydd yn ymwneud â'r canllawiau a gyhoeddwyd gennym yn ddiweddar ar reoli gwastraff ymbelydrol o ddatgomisiynu.

Digwyddiadau a gorfodaeth
Bydd CNC yn adolygu crynodebau o'r holl ddigwyddiadau yr adroddir arnynt yn rheolaidd, ac yn trafod y rhai sy'n berthnasol i gydymffurfiad amgylcheddol gyda Magnox Ltd fel rhan o'n rheoleiddio arferol.

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau amgylcheddol o bwys yn Wylfa yn ystod y cyfnod adrodd hwn

Diolchwyd i Rona Arkle am ei hadroddiad.

9 Diweddariad am Reoli Gwastraff Wylfa
Ni chyflwynwyd adroddiad

10 Y Diweddaraf am Gynllun Economaidd-Gymdeithasol Magnox
Rhoddodd Mair Jones gyflwyniad byr ar lwyddiannau cynllun economaidd-gymdeithasol Magnox. Nododd, hyd yma, bod saith cais wedi cael cymorth drwy'r cynllun yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, gan sicrhau cyllid gwerth £121,830 gan Magnox.

Y rhai a dderbyniodd gyllid Cymydog Da:
Pwyllgor Rali Ffermwyr Ifanc Ynys Môn - £300 i noddi'r gystadleuaeth sgiliau gwaith coed i rai dan 16 oed.
Cybi Striders - £120 i brynu chwe thlws pren y gellid eu hailddefnyddio wedi'u gwneud ar archeb gan gyflenwyr lleol, sef Coed Môn.

Ysgol Gyfun Llangefni –rhoddodd Magnox £300 o nawdd i'r ysgol y llynedd i gymryd rhan yn y gystadleuaeth F1 mewn Ysgolion. Ar ôl ennill y wobr gyntaf yn y rownd ranbarthol, parhaodd llwyddiant y tîm yn y rowndiau Cenedlaethol yn Silverstone. Y mis diwethaf, bu'r tîm yn cynrychioli Cymru yn Rowndiau Terfynol y Byd F1 mewn Ysgolion 2018 yn Singapore, ochr yn ochr â Grand Prix Formula 1 2018. Nhw oedd enillwyr y Wobr 'Global Team Identity'.

Y rhai a dderbyniodd gyllid Cymunedau Cynaliadwy:
Cyfeillion Llyfrgell Cemaes - derbyniodd y grŵp a ffurfiwyd yn ddiweddar £5,000 o gyllid gan Magnox i gynnal y gwasanaeth llyfrgell yn y gymuned am y 12 mis nesaf, gan ddiogelu swydd y llyfrgellydd.

Y diweddaraf ar y prosiectau trawsnewidiol parhaus, mwy a gefnogwyd:

Cyngor Sir Ynys Môn, Ynys Ynni - Trydedd Flwyddyn Cam 3.
Cyn-safle Peboc, Llangefni - Oedi o ran sicrhau caniatâd cynllunio amlinellol ar gyn safle'r gwaith cemegol. Mae angen mwy o archwiliadau safle a dadansoddiad trylwyr yng nghyswllt ystlumod. Rhagwelir derbyn caniatâd cynllunio yn gynnar yn 2019

.

Estyniad Penrhos, Caergybi – Cynhyrchwyd astudiaethau, arolygon ac asesiadau ar gyfer y llain datblygu ychwanegol. Mae cais cynllunio llawn wedi ei gymeradwyo a sicrhawyd grant o £3.9m o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) a chyllid gan Lywodraeth Cymru i adeiladu deg o unedau busnes ar y safle segur.

Cynllun Adfywio Amlwch a Gogledd Môn – Cynhaliwyd sawl cyfarfod ymgysylltu â'r cyhoedd a digwyddiadau ymgynghori yn yr ardal, ynghyd ag arolwg i drigolion lleol ei lenwi, gyda dros 550 o ymatebion wedi'u derbyn. Mae adroddiad drafft cam 1 yr Arolwg Ymgynghori wedi ei lunio, a disgwylir cynllun terfynol ym mis Rhagfyr 2018. Bydd prosiectau penodol yn seiliedig ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu blaenoriaethu a bydd awgrymiadau'n cael eu hystyried a'u datblygu ymhellach.

Capel Bethlehem, Cemaes. – Ar ôl sicrhau cyllid o £150,000 gan Magnox yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, mae Prosiect Capel Bethlehem, gwerth £1.7m, yn disgwyl am benderfyniad ar eu cais cynllunio. Bydd y prosiect yn creu pum menter fusnes newydd; bwyty, dwy siop, llety gwyliau a sinema. Bydd y rhain, yn eu tro, yn creu llawer o gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a gwirfoddoli.

Mae'r cynllun yn darparu cyllid i gefnogi gweithgareddau sydd o fudd i fywyd cymdeithasol neu economaidd cymunedau, er mwyn cefnogi cyfrifoldebau'r NDA dan Ddeddf Ynni (2004) i leihau effaith economaidd-gymdeithasol ei raglen waith yn yr ardaloedd lle mae'n gweithio.

Mae cyllid ar gael ar ffurf rhaglen dreigl, a chaiff ei flaenoriaethu tuag at nodau 2 a 3, lle mae modd cyflawni'r budd economaidd-gymdeithasol mwyaf cynaliadwy a mwyaf o ran maint. Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun a'r meini prawf ar gyfer cyllid ar gael yn: https://magnoxsocioeconomic.com

Diolchwyd i Mair Jones am ei diweddariad a llongyfarchwyd y tîm ar y gwaith da a oedd yn cael ei wneud i alluogi darparu cyllid i brosiectau lleol. Ailadroddodd y

Cyng. G W Roberts ei gais am i'r wybodaeth hon a'r canlyniadau cadarnhaol gael eu darparu'n hwylusach i'r cyhoedd.

11 Sesiwn Holi ac Ateb Fforwm Agored

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau i'r Fforwm Agored.

12 Adolygiad o Gyfansoddiad SSG Wylfa

Cyflwynodd y Cadeirydd Gyfansoddiad diwygiedig SSG Wylfa. Cytunwyd ar y diwygiadau i'w cymeradwyo gan ddau aelod â hawl pleidleisio.

13 Unrhyw Fater Arall

Holodd Tom Conway ynghylch y broses o ran rheoli cofnodion ar y safle. Cadarnhaodd Stuart Law fod tair storfa archifau fawr wrthi'n cael eu dosbarthu a'u catalogio ar hyn o bryd yn unol â'r gofynion statudol.

Cynigiwyd dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd 2019, sef 31 Ionawr 2019 a 27 Mehefin 2019. Bydd y cyfarfod ym mis Mehefin yn ystyried ethol Cadeirydd newydd. Cadarnhawyd amser dechrau'r cyfarfodydd, sef 2pm, a'r lleoliad fydd Neuadd Bentref David Hughes o hyd. Gofynnodd yr aelodau am i system PA gael ei defnyddio ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a chaeodd y cyfarfod am 2.55pm

Cyfarfod Nesaf – dydd Iau 31 Ionawr 2019

DRAFT